

ROBERTSON, HENRY (1816 - 1888), peiriannydd

Enw: Henry Robertson
Dyddiad geni: 1816
Dyddiad marw: 1888
Priod: Elizabeth Robertson (née Dean)
Rhiant: Duncan Robertson
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: peiriannydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir
Awdur: George Geoffrey Lerry

Ganwyd 11 Ionawr 1816 yn Banff, mab Duncan Robertson, swyddog cyllidol; graddiodd yn Aberdeen. Yn 1842 y daeth gyntaf i Gymru, i aildrefnu'r gweithydd haearn a glo a gychwynnyd gan [John Wilkinson](#). Gan weld bod ffyniant y rheini'n dibynnu ar ddarparu ffyrdd haearn, troes ei ddiddordeb at y mater hwnnw, a chyda chymorth Thomas Brassey fel ymgymwr cynlluniodd Robertson y ffordd haearn o Gaer i Amwythig, gyda'i phontydd hysbs dros Ddyfrdwy a Cheiriog. Symudodd i Amwythig, unwaith eto i gynllunio ffyrdd haearn yn y fro honno, a'r ffordd haearn o Riwbabon drwy'r Bala i Ddolgellau. Ymunodd hefyd â chwmni Beyer, Peacock, and Co., a wnâi bei'r annau ffyrdd haearn, ac ni phaliod ei ddiddordeb ym mhylâu gla a gweithydd eraill sir Ddinbych. Daeth i fyw i Edeirnion, gan brynu Crogen gan iarl Dudley, a thua 1869 prynnod stad y Pale (Palau), Llandderfel - cartref hen deulu o Lwydiaid oedd y Pale (gweler *P. Fadog*, vi, 105-6), teulu y darfu'r llinach wrywol ohono gyda marwolaeth David Maurice Lloyd yn 1863. Bu Robertson yn aelod senedol dros Amwythig (1862-5, 1874-85), ond yn 1885 cariodd sir Feirionnydd fel Rhyddfrydwyr; eithr anghytunai â pholisi Gwyddelig Gladstone ac nid ymgynigiodd yn 1886 - cymerwyd ei le gan [T. E. Ellis](#). Bu farw 22 Mawrth 1888. Y mae casgliad helaeth o'i bapurau a'i fapiau a'i gynlluniau yn LI.G.C.

Awdur

George Geoffrey Lerry

Ffynonellau

Ymchwil bersonol

Darllen Pellach

Archifau LIGC: To the Electors of Merionethshire

Archifau LIGC: To the Electors of the County of Merioneth: [Mr. Robertson's amended Address; or what he really meant to say]

Coflein: CROEGEN; CROGEN, LLANDDERFEL

Erthygl Wicipedia: [Henry Robertson](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [267067512](#)

Wikidata: [Q5727604](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Ardull APA



Lerry, G. G., (1953). ROBERTSON, HENRY (1816 - 1888), peiriannydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-HEN-1816>

Copiar i'r

clipwyrdd

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddir gan
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government